Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 24: 1-28

ADNOD
ALLWEDDOL
Genesis 24: 27

Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod

Duw'n helpu

Roedd Abraham wedi mynd yn hen iawn ond, cyn iddo farw, roedd arno eisiau bod yn siwr bod gwraig dda gan Isaac. Felly dywedodd wrth ei brif was sut i fynd ati i chwilio am wraig i'w fab. Dywedodd wrtho am drystio Duw i'w arwain at y ferch iawn.

C Beth ddywedodd Abraham wrth ei was am ei wneud? 3

T__ __ __ __ __ __ Duw i'w arwain.

Ar ôl teithio am ddyddiau lawer, arhosodd gwas Abraham ar bwys ffynnon ger dinas Nahor. Roedd hi'n dechrau nosi ac roedd y merched ifanc i gyd yn dod i nôl dŵr o'r ffynnon.

C Tanlinellwch y gair sy'n dangos lle'r arhosodd gwas Abraham. 2





ffynnon **coeden** **tŷ** **allor**

Gofynnodd y gwas i Dduw ddangos iddo ai un o'r merched hyn oedd i fod yn wraig i Isaac. Byddai'n gofyn am ddiod a phe bai un o'r merched yn rhoi diod iddo ef ac yn cynnig dŵr i'w ddeg camel, byddai'n gwybod mai hi yr oedd Duw wedi'i dewis i fod yn wraig i Isaac.

C Lliwiwch y sgwâr sydd wrth ymyl yr ateb cywir. 3

☐ Pan gyrhaeddodd y gwas i'r ddinas.

☐ Aeth i chwilio am rywle i aros.

☐ Gofynnodd i Dduw ei helpu.

☐ Gwerthodd y camelod.



Cyn hir, gwelodd ferch dlos yn dod at y ffynnon. Rebeca oedd ei henw. Pan ofynnodd y gwas iddi am ddiod, fe gafodd ddiod ganddi ar unwaith a digon o ddŵr ar gyfer ei holl gamelod. Yna, roedd y gwas yn gwybod bod Duw wedi'i arwain at y ferch iawn.

C Ysgrifennwch enw'r ferch.

R _ _ _ _ _

5

C Lliwiwch y llun.

Ar ôl rhoi anrhegion iddi oddi wrth ei feistr, Abraham, holodd a oedd lle iddo aros yn ei chartref. Pan ddywedodd hi bod ganddynt ddigon o le, plygodd y gwas ei ben a diolch i Dduw am ateb ei weddïau.

3

C Beth roddodd y gwas i Rebeca? A _ _ _ _ _ _ _.

C Lle cafodd y gwas aros dros nos? Ei ch _ _ _ _ _ _.

C I bwy y diolchodd y gwas? D _ _ .

4

C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir.

1. Gwrthododd Rebeca roi diod i was Abraham. .....

2. Gofynnodd gwas Abraham i Dduw ei arwain at y ferch iawn. .....

Ydych chi'n gweddïo ar Dduw ac yn gofyn iddo'ch helpu chi?